Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o'r profiadau bydd eich plentyn yn derbyn yn ystod y tymor cyntaf yn y Dosbarth Meithrin.

## Dysgu Tu Allan

Mi fydd bore coedlan gan eich plentyn pob Dydd Gwener **(dechrau 20.9.24)**.

Byddwn yn cynnal y sesiynau coedlan ymhob tywydd. A allwch sicrhau bod eich plentyn wedi gwisgo'n addas, hynny yw wellies(i adael yn yr ysgol), cot glaw/cynnes yn yr ysgol ac eli haul ar ddiwrnodau braf?

I ddechrau byddwn ond yn edrych ar yr ardal o amgylch ein iard i gael y plant yn gyfarwydd ar ardal cyn mynd lan i'r goedlan.

## Dosbarth Meithrin

Croeso i'r Dosbarth Meithrin!
Miss Iles ydw i a byddaf yn arwain y sesiynau bore gyda chymorth Miss Broad a Miss Edwards.

Os modd sicrhau rydych yn laebli dillad eich plentyn yn glir, gan gynnwys tei ac esgidiau. Bydd yn helpu staff i sicrhau mae eich plentyn yn dod a phopeth adref ar ddiwedd y dydd.

Byddwn ar y gat pob bore i groesau pawb mewn ond fel y welwch mae'n gallu bod yn brysur iawn! Os oes gennych unrhyw cwestiynau neu bryderon gallwch ffonio'r ysgol a byddaf yn dod nôl i chi mor gyflym a phosib.

## Gwaith Dosbarth

Prif ffocws ar y foment ydy sicrhau lles eich plentyn wth iddo/iddi ymgartrefu i ddosbarth newydd.

Byddwn hefyd yn gweithio ar ein thema 'Dyma Fi'. Bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dros y tymor. Byddwn yn edrych a dysgu enwau rhannau'r corff, edrych ar ein teulu ac ymchwilio'r fath o dai rydym yn byw ynddi._Rydym am ddefnyddio'r gweithgareddau hyn i greu amrywiaeth o gelf i greu oriel ein hun

## Pethau I'w Gofio

Bydd angen ffrwyth ar eich plentyn pob bore. Gofynnwn i chi osod ffrwyth eich plentyn yn y bocs ar bwys y gat wrth gyrraedd yn y bore wedi labeli'n glir.
Gall eich plentyn dod a photel dwr wedi labeli'n glir i'r ysgol i yfed yn ystod y bore.

## Iechyd a Lles:-

Fe fydd ein sesiynau iechyd a lles ar fore **Dydd Mercher**.

Ar y dyddiau yma bydd y disgyblion yn gallu gwisgo dillad ymarfer corff i'r ysgol, sef troswus tracwisg llwyd, crys polo, treinyrs a siwmper neu gardigan ysgol.

## Cadw Cyswllt

Er mwyn gwybod yr hyn sy'n digwydd yn y dosbarth dilynwch dudalennau Twitter yr ysgol.
*@penalltau*
*@missilesyp*

## Gwaith Cartref a Llyfrau Darllen

Bydd llyfrau darllen i fwynhau yn dod adref yn wythnosol gyda'ch plentyn **(Dydd Gwener)**. Bydd rhaid ei ddychwelyd ar **Ddydd Mawrth**.
Mae genym ni bwydlen gwaith cartref llawn gweithgareddau i chi gwbwlhau gyda'ch plentyn. Gallwch gwbwlau'r gweithgareddau dros y tymor. Cofiwch i rannu eich gwaith ar Seesaw fel bod y plant yn gallu rhannu'r gwaith gyda'r dosbarth.



www.ysgolpenalltau.com @ @penalltau 01443 862974

